CHWEFROR 2019 Rhifyn 273

GAIR Y GWEINIDOG

"Blwyddyn Newydd Dda!

Na, dwi ddim yn meddwl ei bod yn rhy hwyr i ddweud hynny, er mi fydd hi'n ddiwedd mis arnoch yn derbyn y rhifyn yma o Perthyn a'r Nadolig yn ymddangos ymhell yn ôl. Diolch am gyfleon i ddathlu fel eglwys ac i fod gyda'n gilydd fel teuluoedd. Yng nghanol byd sy'n ymddangos mor brysur, rhy brysur weithiau i ddim, peth da yw aros am ychydig oriau ymhlith teulu a ffrindiau a datod ein hunain oddi wrth rhediad arferol bywyd a chyfrif ein bendithion. Ond mae yna wastad yfory! Rhywbeth all fod yn destun ofn neu ddiolchgarwch. Mae yna rhyw duedd naturiol ynom i geisio dal gafael mewn amser ac ar ei waetha, troi'r clociau am yn ôl. Am rhyw reswm fe gydiodd mesur o hiraeth ynof y Nadolig yma, wn i ddim pam, efallai fy mod yn mynd yn hŷn ynghyd â Dafydd a Anna ac felly mae ail fyw profiadau plentyndod trwy fywydau ein plant bellach yn prysur ddiflannu. Oedd mi 'roedd yna anrhegion a bore Nadolig a chinio a hamdden ond fe ddiflannodd y mins-pei a'r foronen a 'doedd yna ddim lleisiau plant yn bygeiniol. Yn nharth y dyfodol efallai y daw yn ôl, ond ar hyn o bryd rhaid diolch am atgofion. Cyfoeth bywyd ein plentyndod a'r Nadolig yn gweithredu fel rhyw ficrocosm i'r cyfan.

Ac fe ddaeth 2019! Mi 'rydan ni am ddal gafael ond ar yr un pryd yn sylweddoli fod heddiw mor werthfawr a ddoe. Perygl amser yw'r awgrym fod pethau'n well yn y gorffennol ac mai adlewyrchiad gwelw o unrhyw ogoniant yw'r presennol. I lawer un mae hynny'n deimlad real iawn, yn gaethiwus o real ac felly'n eu rhwystro rhag delio'n adeiladol â'u bywydau heddiw. Ac felly yng nghyd destun ffydd a bywyd yr Eglwys. Ar dudalen flaen rhifyn cyfredol 'Y Goleuad' mae'r Parch Meirion Morris yn cyfeirio at y ffaith syfrdanol bod nifer o Gristnogion yn fyd-eang yn parhau i dyfu gyda'r posibilrwydd o gyrraedd 34.1% o boblogaeth y byd

erbyn y flwyddyn 2050. Darlun gwahanol iawn i'r un yr ydan ni wedi arfer ag o a'r Gristnogaeth yn ymddangos fel petae'n crybachu yn y Gymru sydd ohoni. Ond dyna fu'r patrwm ar hyd y canrifoedd, fel byddai'r diweddar Hywel Teifi yn ei ddweud, ffrind o flaenor am gymaint o flynyddoedd, "llanw a thrai, llanw a thrai". Canlyniad unrhyw drai naturiol yw ei fod yn gadael ar ei ôl byllau diddorol llawn bywyd ac felly heddiw. Adlewyrchiad o'r bywyd hwnnw yw cynnwys Perthyn ond mae'n fywyd sy'n fwy na'r hyn sy'n digwydd yn ein heglwys ni. Y mae Ysbryd Duw ar waith yn ein cymunedau a'n gwlad ac arwydd ei deyrnas i'w weld yn egin gweithgaredd ei bobl.

Y mae dechrau blwyddyn yn wahoddiad i bob un ohonom gyfranogi yn y gwaith hwnnw, i adnabod ein doniau ac i ddal gafael yn yr 'heddiw' hwnnw sydd mor werthfawr yng ngolwg Duw.

'A ddoi di i'm dilyn i
os galwaf d'enw di?
A ddoi di heb wybod mwy
pa lwybyr fydd i ti?
Wnei di rannu cariad Duw,
wnei di ddweud mai cariad yw,
wnei di er y mwyn i fyw
yn un - tydi a mi?'

Eifion

NEWYDDION

Aelodau Newydd

- Braint i ni yw cael croesawu aelodau newydd yng Nghapel y Morfa –Mark Strong a Johanna Breyer, Iwan

Jenkins, Elen Wyn Worman a Meurig a Nia Royles. Gobeithio y byddant yn teimlo'n gartrefol yn ein plith.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau ……

- i Clare Davies sydd wedi derbyn doethuriaeth o Brifysgol Abertawe. Mae Clare yn gweithio yn y Cyngor Llyfrau.
- i Gareth Lloyd Davies sydd wedi ei benodi yn bennaeth dros- dro yn Ysgol Llanddoged ger Llanrwst.

Dymunwn yn dda

- i Kate ac Elwyn a'u plant Greta a Seth a fydd yn treulio cyfnod sabothol o dri mis yn Seland Newydd. Byddwn fel Ysgol Sul yn cadw cysylltiad ac yn edrych ymlaen at glywed yr hanes pan ddychwelant ddiwedd Ebrill.

Anfonwn ein cofion at ……

- Mrs. Megan Jones yn ysbyty Tregaron ac at ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartrefi preswyl.

Cydymdeimlwn yn ddwys â ……

- Janet, John ac Anna a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mam, Mrs. Ethel Williams, Coedlen Llwyfen
- John Evans a'r teulu ar farwolaeth Mrs. Megan Evans, Noddfa, Penparcau.
- Tegwen James a'r teulu ar farwolaeth ei mam, Mrs, Menna Jenkins, Tal-y-bont.
- hefyd â Ann Skitt a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer, Mrs. Megan Lewis

Geni

- Llongyfarchiadau i Hannah ac Edward ar enedigaeth eu mab Owen, ŵyr i Tegwen a Nigel James
- i Gwydion a Lacey ar enedigaeth eu mab Rhys Tudur , ŵyr i Nia Henson a brawd i Carys.

Yr Ysgol Sul

Diolch am y gefnogaeth a'r cymorth a dderbyniwyd wrth baratoi at y Gwasanaeth Nadolig a'r parti yn y Morlan. Braf oedd gweld cynifer o blant a ieuenctid a'u teuluoedd yn bresennol. Thema'r gwasanaeth oedd 'Daeth Crist i'n plith O llawenhawn'. Roedd cyfraniadau'r dosbarthiadau yn seiliedig ar eiriau'r garol, a choeden eco wen y dosbarth ieuenctid wedi ei haddurno â gweddiau a cholomenod heddwch yn ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb heddiw i sicrhau fod ysbryd gwell rhwng gwlad a gwlad. Diolch i aelodau'r band am eu cyfeiliant bywiog.
Yn ddiweddglo i'r gwasanaeth roedd geiriau pennill olaf y garol :

Ein nerth a'n gobaith oll bob awr
Yw ei Efengyl ef:
Daeth Crist i'n plith O llawenhawn.

Roedd cynnyrch Llanllanast, Hwyl yr Ŵyl a gynhaliwyd ar y Sul cyntaf yn Adfent i'w weld yn y capel a'r cardiau a baratowyd y bore hwnnw yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan yr aelodau yn eu cartrefi.

Edrychwn ymlaen at ddathlu Gŵyl Dewi yn ein gwasanaeth ar fore Sul,
Chwefror 17 am 10 o'r gloch.

Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol
12.00 o'r gloch tan 1.30

Chwefror y 4ydd - Canolfan St Paul's

Diolch i bawb a wnaeth ymateb mor ardderchog i Apêl arbennig y Banc Bwyd adeg y Nadolig. Cafodd y cyfan eu gwerthfawrogi'n fawr gan y trefnwyr yn Eglwys Sant Anne, Penparcau.

Y goeden eco wen

Megan Evans.

I'r rhai ohonom sy'n gyrru'n rheolaidd trwy Penparcau, fydd mynd heibio 'Noddfa' byth yr un peth. Gallasai neb fod wedi dewis gwell enw i gartref Megan na 'noddfa' oherwydd bu'n gysgod i gymaint. Nid yn unig y llu unigolion fu yno'n brecwesta B & B ond hefyd y rhai oedd yn ei chyfrif yn ffrind a hithau wrth ei bodd yn croesawu ac yn sgwrsio. 'Roedd hi'n adnabod gymaint, o ddyddiau Hendre Rees, Trawsgoed ple dechreuodd y daith i ddyddiau Llwynpiod a Phenparcau a'r wybodaeth am bobl a llefydd yn fyw yn ei chôf hyd y diwedd. Yn dilyn ei phriodas â Glyn penderfynwyd adeiladu'r cartref ar dir o eiddo'r Powells, Nanteos. Gymaint oedd parch y Powells tuag at eu teuluoedd fel y caniatwyd iddynt ddewis unrhyw ddarn o dir. Yn allanol ac yn fewnol ceir tystiolaeth i waith crefftwyr cyflogedig, yn adeiladwyr ac yn seiri a bu Megan wrthi'n troi brics a mortar yn gartref lle bu'n wraig a mam gofalus a gweithgar. Ond 'roedd yna deulu ehangach a dim yn fwy na theulu'r Eglwys. Ar aelwyd Ebeneser a'r Tabernacl ac yn ddiweddarach y Morfa bu'n aelod gweithgar ac ymroddedig, yn arweinydd naturiol ac yn gefnogol i unrhyw weithgaredd oedd yn hyrwyddo Efengyl Crist a llês cyd-ddyn. Fe deithiodd lawer yn y car bach, i Sasiwn a Seiat, Cyrdde Chwiorydd a Merched y Wawr, Yr Aelwyd ac Eisteddfod, yn mwynhau'r gymdeithas ac yn rhannu ei doniau. Oes oedd yna wahoddiad i siarad, byddai Megan byth yn gwrthod ac amrywiaeth y cynnwys, heb angofio y llieiniau sychu llestri! yn dweud llawer amdani. 'Roedd llenyddiaeth a barddoniaeth wrth ei bodd a'i doniau'n amlygu eu hunain mewn cerdd a llythyr, erthygl a myfyrdod a ninnau wrth ein bodd yn eu derbyn. Er cyflwr ei hiechyd, bu'n sionc ac effro ei meddwl am gymaint o flynyddoedd ond bu'r ail strôc yn ormod a bu farw'n dawel ar yr aelwyd oedd yn golygu gymaint iddi.
Cydymdeimlwn yn ddwys â John a'r teulu yn eu profedigaeth. Yn unol â'i dymuniad bu gwasanaeth i'r teulu yn unig yn Amlosgfa Aberystwyth dan arweiniad Y Parch Eifion Roberts.

Cynhadledd Dechrau o'r Newydd

29–30 Mawrth 2019
Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth

Beth yw ystyr bod yn Gristion yng Nghymru'r 21fed ganrif? Sut mae cysoni credo crefyddol â byd-olwg gwyddonol? Ai yn nhermau myth y mae deall crefydd, a'r stori Gristnogol yn benodol? Beth o'n treftadaeth a'n defodau cyfarwydd y mae'n bwysig ei gadw ac i ba raddau mae rhaid dechrau o'r newydd?

Ewch i wefan C21 am fwy o fanylion.

Gwirfoddoli yn y Morlan

A oes gennych chi awr neu ddwy i'w sbario? Hoffech chi gymdeithasu? Hoffech chi gefnogi'r Morlan?

Mae criw gweithgar o wirfoddolwyr yn helpu i gynnal Canolfan Morlan ac rydym yn paratoi am flwyddyn brysur arall yn 2019. Ar ddechrau blwyddyn fel hyn, byddai'n wych medru denu cyfeillion newydd atom.

Tybed a wyddoch chi am unrhyw un a hoffai ymuno â'r criw? Dewch a ffrind efo chi. Mae digonedd o gyfleon am waith amrywiol.

Dewch draw am sgwrs ar fore Mercher, 20 Chwefror
10.00-12.00 o'r gloch
Canolfan Morlan

01970 617996 morlan.aber@gmail.com

26 TACHWEDD, 2018

Croesawyd Garmon Gruffudd, Rheolwr, Gyfarwyddwr Y Lolfa i'r Gymdeithas i son am Wasg y Lolfa a'i llyfrau.
Cafwyd sgwrs ddifyr a gyda chymorth sleidiau, adroddwyd hanes sefydlu'r Wasg 50 mlynedd yn ôl gan dad Garmon, Robat Gruffudd, a thyfiant y busnes oddi ar hynny i'r hyn sydd gan Y Lolfa i'w gynnig heddiw.
Arweiniwyd y defosiwn gan Dafydd Morgan Evans a diolchodd Gwynfor Jones i 'r siaradwr; ef yn briodol i wneud hynny gan i'r Lolfa gyhoeddi ei lyfr 'Pel-Droed Cymru -o Ddydd i Ddydd'.

3 RHAGFYR, 2018

Dathlu'r Nadolig trwy gadwyn amser oedd thema'r Gwasanaeth Nadolig, dan ofal Elen Wyn Worman. Cafwyd darlleniadau gan rai o'r aelodau a chanwyd nifer o garolau gyda Mary Jones Morris yn cyfeilio. Rhannodd Elen, rhwng yr eitemau, ei hatgofion o Nadoligau'r gorffennol, ei phrofiad personol o'r problemau a wynebodd hi adeg genedigaeth ei mab ar drothwy un Nadolig gan orffen gyda neges y Nadolig heddiw.
Bu casgliad arbennig tuag at Apêl y Nadolig, Byddin yr Iachawdwriaeth, Aberystwyth ar ddiwedd y Gwasanaeth, gyda'r cyfanswm yn £110.
Diolchodd y Cadeirydd, Mary Olwen Owen i Elen ac i'r rhai a gymerodd ran. Wedi'r Gwasanaeth, mwynhawyd paned a danteithion y Nadolig a baratowyd gan rai o'r aleodau.

14 IONAWR 2019

Arferiad erbyn hyn yw cynnal cwis ar ddechrau'r flwyddyn newydd ac fe ddaeth nifer dda ynghyd i'r noson a drefnwyd eleni eto gan Eirian a Menna Evans. Cafwyd noson hwyliog a llawer o sbri wrth geisio ateb yr amrywiol gwestiynau a osodwyd i'r timau. Menai Williams oedd yng ngofal y defosiwn ar ddechrau'r cyfarfod a diolchir iddi hi am dynnu llun o'r tim buddugol yng nghwmni'r ddau gwis-feistr. Diolchwyd iddynt hwy hefyd am drefnu'r cwis cyn mwynhau paned a chymdeithasu

Morlan

Profiad y Nadolig yn y Morlan

Cyn y Nadolig daeth disgyblion Blwyddyn 5 Yr Ysgol Gymraeg Aberystwyth i'r Morlan i dreulio bore ym 'Mhrofiad y Nadolig. Wrth iddynt gyrraedd roedd swyddog y maes awyr yn barod i stampio cerdyn pasbort ger yr arwydd 'Croeso i Fethlehem'.

Rhannwyd y plant yn bedwar grŵp ac yn eu tro cawsant gyfle i ymweld â phedair golygfa yn gysylltiedig â stori'r Nadolig. Cyflwynwyd stori'r Nadolig gan Mair (Siân Owen) o'r adeg yr ymwelodd yr angel â hi hyd at eni'r Iesu ym Methlehem, ymweliad y bugeiliaid a'r doethion ac yna y ffoi i'r Aifft. Roedd Nyrs Carys Davies yn sgwrsio am ei gwaith fel bydwraig ac yn sôn am y gofal sydd ei angen ar faban newydd anedig a'r llawenydd yn gysylltiedig â chroesawu baban newydd i'r aelwyd. Daeth Erwyd Howells i sôn am ei waith fel bugail heddiw gan gyfeirio yn ôl at waith y bugail yn y Beibl. Roedd ganddo hefyd gasgliad diddorol o offer traddodiadol i'w dangos i'r plant.

Roedd cromen fawr yn y neuadd wedi ei gosod yn ei lle gan ddau aelod o staff adran Ffiseg y Brifysgol a thywyswyd y plant i syllu ar y galaethau ar do'r gromen. Gosodwyd ffurfiant posibl y sêr yn yr awyr ar adeg geni'r Iesu gan esbonio beth achosodd i un seren ddisgleirio uwchben ardal Bethlehem.

Cafwyd ymateb gwych gan y plant a'u hathrawon ac edrychir ymlaen at ddatblygu'r profiad ymhellach y flwyddyn nesaf.

‘Gwn Glân, Beibl Budr’

Mae Lleuwen Steffan ar daith o gwmpas capeli Cymru yn Chwefror 2019, yn hybu ei halbwm newydd 'Gwn Glân, Beibl Budr', ac rydym yn falch iawn ei bod wedi dewis Capel y Morfa fel un o leoliadau'r daith honno.

Dyma sut mae Lleuwen ei hun yn disgrifio'r daith:

"Mae gen i ddiddordeb yn y berthynas rhwng cerddoriaeth ac ysbrydolrwydd. Yn y modd y mae'n ein cysylltu ni. Yn uno'r presennol gyda'r gorffennol mewn modd uniongyrchol. Yn uno pobl. Yn ein gwreiddio ni.

Dan ni'n byw am heddiw. Dan ni'n brysur. Fel tasa ddoe na fory ddim yn bod. Sut mae deall y presenol hwn heb ymwybyddiaeth o hanes? Sut mae sugno'r dŵr pan mae'r gwreiddyn wedi torri?

Yr holl sibrydion gweddi ac emynau a dyheadau fu unwaith yn ein capeli. Lle mae nhw rwan? Fedra ni mo'u clywed nhw . . ond efallai eu bod nhw dal yna. Yn atsain yn y dirgel. Be ddigwyddodd i ddelfryd y seiadau cynnar ... yn agored i bawb i gynnal gobaith ei gilydd?

Be ydi chwyldro ond gair arall am ddiwygiad? Be ydi Duw ond gair arall am Gariad?"

Edrychwn ymlaen yn fawr at gael clywed Lleuwen yng Nghapel y Morfa, a byddwn hefyd yn cael cwmni'r prifardd Hywel Griffiths yno, yn rhannu ei gerddi a'i brofiadau.

Cofiwch felly, nos Sul 17 Chwefror am 7.30 yng Nghapel y Morfa.

Tocynnau am £10 i'w cael o Siop Inc, Siop y Pethe, Canolfan Morlan neu gan Gwenan (07790 457269).



Golygyddion y mis hwn a'r nesaf yw Eifion ac Alwen
(eifionroberts095@btinternet.com)
Cyfraniadau ar gyfer Perthyn mis Mawrth erbyn dydd Gwener y 15fed o Chwefror

Gwyddoniaeth a'r Ysbrydol

Mewn erthygl ar wefan Cristnogaeth 21 ychydig wythnosau'n ôl, mae'r awdur yn cyfeirio at faint anhygoel y bydysawd – amcangyfrif o filiwn triliwn o sêr yn y bydysawd gweladwy, pellteroedd na allwn yn wir eu hamgyffred – a felly safle hollol ddinod y ddaear yn hyn i gyd. O ganlyniad, dywed yr awdur na all dderbyn bodolaeth unrhyw Ddeallusrwydd Dwyfol consyrnol tu ôl y byd naturiol. Ond mae'n pwysleisio fod y byd yn llawn cariad ac yn awgrymu mai ansawdd ein bywydau sy'n cyfrif.

*****

Mae'r awdur yn cyfeirio'n gynnar yn ei ysgrif at waith Edwin Hubble, a wnaeth, yn nauddegau'r ugeinfed ganrif, gasglu tystiolaeth o fodolaeth galaethau tu allan (yn bell tu allan) ein galaeth ni, y Llwybr Llaethog.

Pan wnes i ddarllen hyn, daeth dau beth penodol i'm côf. Y cyntaf oedd yr argraff a wnaeth cyfrol enwog Hubble 'The Realm of the Nebulae' arnaf pan wnes ei darllen pan oeddwn yn yr ysgol. Yr ail oedd ein hymweliad fel teulu â Flagstaff yn Arizona. Cofiwn y ffurfafen glir heb lygredd golau a thelesgop y Lowell Observatory enwog gerllaw.

****

Y cysylltiad yw mai dyma lle wnaeth gŵr o'r enw Vesto Slipher yn 1912-1914 wneud mesuriadau hynod gywrain o sbectra'r hyn a elwid yn nebulae a darganfod fod tonfedd y golau oddi wrthynt yn symud i'r coch (y red shift), yn dangos fod rhan fwyaf ohonynt yn rhuthro i ffwrdd oddi wrthym. Ar y pryd roedd dadl fawr os oedd y nebulae (e.e. Andromeda) yn

rhan o'r Llwybr Llaethog neu thu hwnt. Yna fe wnaeth Hubble ddefnyddio'r telesgop newydd ar Fynydd Wilson ger Los Angeles, y mwyaf treiddgar yn y byd bryd hynny ac am ddegawdau wedi hynny, i amcangyfrif y pellter i'r nebulae. Daeth yn hollol glir fod y nebulae yn bell tu allan ein galaeth. Wrth gyfuno ei ganlyniadau ef, yn ddiweddarach mewn cydweithrediad gyda Milton Humason, gyda rhai Slipher, awgrymodd 'ddeddf Hubble' fod cyflymder y pellhau yn gyfrannol â phellter.

Roedd Hubble heb amheuaeth yn un o wyddonwyr mwyaf dylanwadol y cyfnod. Roedd yn berson uchelgeisiol. Ar ôl treulio ychydig flynyddoedd yn Rhydychen fel myfyriwr, mae'n debyg iddo fabwysiadu arferion, gwisg, acen a ffordd o siarad Saeson uchel-ael. Rhyfedd!

****

Ar yr un pryd roedd y ffisegwyr damcaniaethol yn ceisio darganfod beth oedd oblygiadau hafaliadau Einstein yn namcaniaeth Perthnasedd Cyffredinol am ffurf y bydysawd. Roedd Einstein ei hun yn ffafrio bydysawd nad oedd yn newid, ac yn y cychwyn addasodd ei hafaliadau i sicrhau hynny. Ond fe wnaeth dau wyddonydd mathemategol eu greddf ddangos fod hafaliadau gwreiddiol Einstein yn rhagddweud bydysawd oedd yn ehangu. Y ddau oedd Alexander Friedmann yn Rwsia (a fu fawr'n ifanc iawn) a George Lemaitre yng ngwlad Belg - y naill heb wybod am waith y llall. Roedd Einstein yn feirniadol ohonynt ar y cychwyn, ond nhw a orfu mewn byr o dro.

****

Ein diddordeb yma yw George Lemaître. Offeiriad pabyddol oedd, a dilynodd dwy yrfa - fel offeiriad ac fel gwyddonydd mathemategol a ddaeth yn un o brif ddylanwadau'r cyfnod ar

gosmoleg. Mae lluniau diddorol ohono yng nghanol enwogion gwyddonol y cyfnod (yn y cynadleddau Solvay er enghraifft) yn ei goler gron. Arweiniodd ei ddatrysiad o hafaliadau Einstein yn uniongyrchol i fodel o'r bydysawd oedd yn newid ac yn esblygu. Rhagfynegodd deddf Hubble a soniodd fod y cread wedi dechrau mewn beth alwodd yn 'primeval atom' ac wedi ehangu oddi yno. Dyma wrth gwrs beth ddaeth i gael ei alw yn ddamcaniaeth y 'Glec Fawr'. Bathwyd y term Big Bang gan Fred Hoyle mewn sgwrs radio yn 1949. Mae'n gymal hyll a hynod anffodus i ddweud y gwir ond fe wnaeth sticio!

Yn y pumdegau roedd dadleuon a oedd ar brydiau yn ffiaidd rhwng dwy garfan: Martin Ryle a'i ddilynwyr a oedd o blaid y model esblygiadol, a Fred Hoyle ac eraill a oedd yn dadlau dros fodel a elwid yn Steady State neu Greu Parhaus. Roedd cwympo mas yng Nghaergrawnt!. Ond erbyn diwedd y chwedegau, yn dilyn cadarnhad arbrofol fod 'na ymbelydredd cefndirol yn llanw'r bydysawd ac yn adlais o'r ffrwydrad cychwynnol, daeth rhan fwyaf i dderbyn y model o Glec Fawr. Dyna farn bron pawb heddi, ond mae 'na broblemau yn parhau a dealltwriaeth anghyflawn yw - ac efallai dros dro yn unig. Pwy a ŵyr beth wnaiff ddatblygu o syniadau fel bydysawd cylchol a multiverses (wnâi ddim ymhelaethu yma!).

****

Lemaître felly oedd prif arloeswr model y Glec Fawr. Roedd yn hollol bendant yn cadw materion ffydd ar wahân i faterion gwyddonol. Dywedodd fod gwyddoniaeth yn ceisio deall y byd naturiol a ffydd yn agor drysau'r byd ysbrydol. 'Mae dwy ffordd o geisio'r gwirionedd, ac rwyf wedi penderfynu dilyn y ddwy'. Mae damcaniaeth y Glec Fawr yn golygu dechrau i'r cread, a gwelodd rhai o wyddonwyr y cyfnod, a phobl fel Hoyle nes mlaen, hyn yn rhyw fath o ddrws cefn i gyfiawnhau Genesis. Yn bendant, nid dyna oedd agwedd Lemaître. Ar yn achlysur, roedd yn gandryll, mae'n debyg, pan awgrymodd y Pab Pius X11 hyn mewn araith yn 1951. Ni wastraffodd

unrhyw amser yn darbwyllo'r Pab rhag defnyddio'r ddadl eilwaith!

Mae'n rhyfedd sut mae'r rhod wedi troi - gwelir cosmoleg gyfoes yn cael ei defnyddio gan rhai fel ffordd o danseilio ffydd. Serch hynny, mae rhan fwyaf o wyddonwyr o'r un farn a Lemaître gynt - y byd naturiol ar y naill law, y byd ysbrydol ar y llall, dwy ffordd o geisio deall natur ein bodolaeth.

****

Dylwn bwysleisio i bobl ifanc realiti a phwysigrwydd y bywyd ysbrydol. Fel mae awdur ar wefan Cristnogaeth 21 yn crybwyll, mae cariad yn y byd. Hanfod ein ffydd yw ceisio'r bywyd newydd yng Nghrist; Ef sydd yn ein cynnal ac Ef sydd yn ein harwain drwy amlygu cariad diamod. Peidiwn gwanhau'r neges drwy gyplysu hyn gydag ymgais i gyflwyno disgrifiad lled-wyddonol o'r byd.

Noel Lloyd



Gweddi

Agor iddo

O Dduw ein Tad,
yr wyt ti'n ceisio lle yn ein calonnau
ac yn sefyll wrth y drws ac yn curo;
cynorthwya ni i glywed dy lais
ac i agor pob rhan o'n bywyd iti:
cymorth ni i agor ein llygaid
i weld gwaith dy ddwylo yn harddwch y byd o'n cwmpas
ac yn y gofal a'r cadw a fu arnom;
cynorthwya ni i agor ein clustiau
i wrando dy lais yn llefaru wrthym yn dy Air
ac yn nhawelwch ein gweddïau;
cymorth ni i agor ein meddyliau
i fyfyrio ar dy wirionedd
ac i dderbyn pob gwybodaeth a gweledigaeth newydd
yr wyt ti am eu cyfrannu inni;
cymorth ni i agor ein heneidiau
i oleuni dy bresenoldeb
ac i rin a llawenydd cymundeb â thi;
i ti gael dod i mewn i deyrnasu ynom
ac i'n gwneud yn eiddo llwyr i ti dy hun.

Amen

Allan o Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

Newyddion Ebeneser

Ar ddechrau blwyddyn newydd anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser ac at y rhai sydd yn methu ymuno â ni yn y gwasanaethau ar brynhawn Sul.

Ar ôl y cyfarfod olaf cyn y Nadolig trefnwyd te ardderchog gan yr aelodau a chyfle i gymdeithasu wrth y byrddau. Roedd y rhai ar y rota organyddion yn gwerthfawrogi'r gwahoddiad i ymuno yn fawr iawn. Diolch i bawb hefyd sydd yn paratoi'r capel ar gyfer y gwasanaethau o Sul i Sul ac i bawb sydd yn trefnu ac yn cyfrannu at y rhestr flodau.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â John Evans a'r teulu ar farwolaeth ei fam, Mrs. Megan Evans, Noddfa. Hefyd cydymdeimlwn yn ddwys â Ann Skitt a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer, Mrs. Megan Lewis.

SWYDDOGAETHAU CHWEFROR 2019

Blaenor y Mis Rhys Jones

Porthorion Arwel Jones, Eirian Evans, Menna Evans

Blodau'r Cysegr – Y Morfa

3 Dilys Lloyd
10 Elsbeth Lewis
17 Hefina Wright a Siân Richards
24 Gwenan Creunant a Siân Eleri Davies

Blodau Ebeneser

3 Sylvia Lewis
10 Megan Morris
17 Llinos Hughes
24 Denise Morgan

Cynorthwywyr Llestri Cymun

3 (Nos) Mari Turner, Hefina Davies-Wright, Elsbeth Lewis, Mary Thomas

Cynorthwywyr Ariannol

3 Rhys Jones a Jean Lloyd Davies
10 Hywel Lloyd a Huw Chambers
17 Hefina Davies-Wright a Wynford Evans
24 Ellen Llwyd-Evans ac Elvey MacDonald

Tregerddan

24 Dan ofal Wyn Hughes a John Roberts

Cinio Bara Chaws

4 Chwefror - St Pauls

Y Gymdeithas

Pnawn Llun, 4 Chwefror – Hen Deip gyda Huw Ceiriog Jones

Nos Lun, 25 Chwefror – Dathlu Gŵyl Ddewi – Richmond yng nghwmni Bronwen Morgan a Huw Davies

DYDDIADUR CHWEFROR 2019

Gwasanaethau'r Sul - 10.00 a 5.00 yn y Morfa, 2.15 yn Ebeneser

3 Eifion Roberts (Cymun nos)
10 Wyn Morris
17 Eifion Roberts
24 John Tudno Williams

Ysgolion Sul - Plant ac Ieuenctid: bore am 10.00

Clwb Hwyl Hwyr – bob prynhawn Llun, 3.45-5.00
Clwb Ieuenctid – bob prynhawn Llun, 3.45-5.00
Cylch Gweddi a Choffi – bore Mawrth am 10.30
Astudiaeth Feiblaidd – nos Iau am 7.15
Ffydd a Phaned – prynhawn Gwener am 2.00

Llun y clawr gan Amelia a'r lluniau eraill gan Laurie a Menai.

OEDFA NADOLIG

OEDFA BORE NADOLIG